| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **29 Ionawr 2015** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus/ Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd** |
| **Teitl:** | **Canfyddiadau'r Adolygiad Traffig a Pharcio** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r Adolygiad Traffig a Pharcio. Mae'r canfyddiadau hyn yn arwain at gyfres o argymhellion ar gyfer trefi Sir Ddinbych a gwmpesir gan yr Adolygiad.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I friffio'r Pwyllgor ar brif ganfyddiadau'r Adolygiad Traffig a Pharcio a'r camau gweithredu a argymhellir yn sgil y rheiny.

2.2 Ceisio cefnogaeth mewn egwyddor ar gyfer datblygu'r camau gweithredu a argymhellir, cyn belled â bod y Grwpiau Ardal yr Aelodau perthnasol yn eu trafod ac yn cytuno â nhw.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

3.1 nodi cynnwys yr adroddiad;

3.2 cefnogi, mewn egwyddor, datblygu'r camau gweithredu a argymhellwyd yn yr Adolygiad ac fel y crynhoir yn Atodiad C (y cam nesaf fydd atodi costau dangosol i bob un o'r camau gweithredu a thrafod y camau hyn gyda phob un o'r Grwpiau Ardal yr Aelodau perthnasol);

3.3 cefnogi cynnal darn arall o waith manwl i archwilio potensial amrywio ffioedd parcio trefi yn unol â'r ddarpariaeth a'r galw fel y nodwyd yn yr Adolygiad Traffig a Pharcio.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Strategaeth Uchelgais Economaidd y Cyngor yn cynnwys cam gweithredu i gynnal Adolygiad Rheoli Traffig a Pharcio ledled y sir. Cynhaliwyd yr Adolygiad hwn i archwilio pa ymyraethau Traffig a Pharcio y gallai'r Cyngor eu gweithredu i gynyddu nifer yr ymwelwyr a gwella masnach.

4.2 Methodoleg

4.2.1 Cafwyd adroddiad ar gwmpas a methodoleg yr Adolygiad Rheoli Traffig a Pharcio yn flaenorol ac fe gefnogwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ym mis Mawrth 2014 (gweler Atodiad A). Cytunwyd y byddai'r Adolygiad yn cael ei gyfyngu i'r deg prif ganol trefi manwerthu yn Sir Ddinbych, sef Corwen, Dinbych, Diserth, Gallt Melyd, Llanelwy, Llangollen, Prestatyn, Rhuddlan, Rhuthun a’r Rhyl.

4.2.2 Cytunwyd hefyd y byddai camau pendant i'r adolygiad:

- i) Arolwg Darpariaeth Parcio
- ii) Arolwg Data Perfformiad y Ddarpariaeth
- iii) Arolwg Preswylwyr
- iv) Arolwg Busnes
- v) Dadansoddiad o ddata’r arolwg
- vi) Nodi camau gweithredu a argymhellir

4.2.3 Pwrpas yr arolwg darpariaeth parcio oedd nodi nifer a lleoliad y llefydd parcio sydd ar gael yng nghanol y trefi (meysydd parcio a llefydd parcio ar y stryd).

4.2.4 Roedd Arolwg Data Perfformiad y Ddarpariaeth yn monitro’r defnydd o lefydd parcio ac yn asesu elfennau fel arwyddion ac ansawdd y parth cyhoeddus.

4.2.5 Roedd yr Arolwg Preswylwyr yn golygu anfon holiaduron i 20,000 o gartrefi. Targedwyd yr holiaduron i bobl a oedd yn byw o fewn 5 milltir i'r trefi dan sylw. Mae cyfradd ymateb o 10% yn nodweddiadol ar gyfer arolygon drwy'r post, felly roedd cael cyfradd ymateb o 19% yn galonogol iawn. Ni chyfeiriodd yr arolwg yma at arolwg traffig a pharcio er mwyn osgoi rhagfarn posibl.

4.2.6 Yna, anfonwyd arolwg busnes at 294 o fusnesau a ddewiswyd o’r Cyfeirlyfr Busnes. Bu i 77 ymateb i’r arolwg (cyfradd ymateb o 26%).

4.2.7 Mae crynodeb o brif ganfyddiadau ac argymhellion yn Adroddiad yr Adolygiad.

4.3 Dadansoddiad, canfyddiadau ac argymhellion

4.3.1 Ceir crynodeb o'r prif ganfyddiadau ac argymhellion yn Atodiad C gan fod gormod ohonynt i’w rhestru yn yr Adroddiad Pwyllgor hwn.

4.3.2 Fe welir yn aml yn dilyn adolygiadau canol trefi bod cyfrannau eithaf sylweddol o lefydd parcio ar y stryd yn cael eu meddiannu gan bobl sy’n parcio eu cerbydau am gyfnod hwy na'r terfyn amser a ganiateir ac a nodir ar yr arwyddion parcio cyfagos. Mae cyfran o’r cerbydau sy’n "parcio am gyfnodau hwy" i'w briodoli i ddeiliaid bathodynnau glas, a ganiateir iddynt barcio ar y stryd heb derfyn amser. Mae'r gweddill, fodd bynnag, yn yrwyr sy’n parcio eu ceir am fwy o amser na chaniateir.

4.3.3 Mae parcio am gyfnodau hwy yn fater arwyddocaol ac ni ellir gorbwysleisio ei bwysigrwydd o ran ei berthnasedd i’r Adolygiad Traffig a Pharcio. Mae parcio ar y stryd fel arfer yn cynnig llefydd parcio am ddim ac am gyfnodau byr wrth ymyl siopau. Mae hwylustod y llefydd parcio yma yn hanfodol o ran gwella

hygyrchedd canol trefi ac felly mae'n bwysig ei fod yn darparu "trosiant" iach a bod argaeledd llefydd parcio o’r fath yn cael ei gynnal.

4.3.4 Mae pobl yn fwy tebygol o barcio am gyfnodau hwy na’r cyfnodau a ganiateir oherwydd nad yw’r cyfyngiadau amser sy'n bodoli eisoes yn ddigon hir ac oherwydd nad oes digon o orfodaeth. Felly, cynigir y dylid mynd i’r afael â’r ddau fater uchod. Mae argymhellion yr Adolygiad yn cynnwys cynyddu gorfodaeth a newid cyfyngiadau amser llawer o ofodau parcio ar y stryd i 1 awr. Mae'n bosibl y bydd cynyddu argaeledd llefydd parcio ar y stryd yn lleihau incwm meysydd parcio, fodd bynnag, mae’n bosibl y byddwn yn gwneud iawn am hyn wrth gynhyrchu incwm yn sgil cynyddu gorfodaeth gofodau parcio ar y stryd.

4.3.5 Dechreuwyd cynyddu gorfodaeth gofodau parcio ar y stryd fis Hydref 2014. Argymhellir bod arolygon pellach yn cael eu cynnal yng ngwanwyn 2015 i fonitro effeithiolrwydd y cynnydd hwn mewn gorfodaeth. Bydd yr arolygon yn cael eu cynnal gan yr Adran Drafnidiaeth ac felly bydd y costau yn cael eu cynnwys o fewn y cyllidebau staff presennol.

4.3.6 Mater cyffredin arall a welwyd yn sgil yr Adolygiad oedd y teimlad y gellid gwella’r arwyddion i gerddwyr rhwng meysydd parcio a siopau.

4.3.7 Daeth yr Adolygiad hefyd i'r casgliad bod lle i amrywio prisiau parcio trefi yn ôl y galw a’r ddarpariaeth sydd ar gael. Mae prisiau parcio ar hyn o bryd yr un fath ar draws Sir Ddinbych, ac eithrio mannau gyda chymorthdaliadau lleol, e.e. Rhuthun. Argymhellir y dylid ystyried newidiadau o'r fath yng ngoleuni canfyddiadau'r Adolygiad.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae cefnogi busnesau lleol yn Flaenoriaeth Gorfforaethol. Mae'r Adolygiad Rheoli Traffig a Pharcio yn un o gamau gweithredu’r Strategaeth Uchelgais Economaidd. Gall darparu cyfleusterau parcio da a pharth cyhoeddus deniadol gynyddu atyniad canol trefi a, thrwy hynny, cynyddu nifer yr ymwelwyr.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd y camau gweithredu a argymhellir yn Atodiad C yn cael eu datblygu ymhellach a bydd y gwaith hwnnw yn cynnwys cyfrifo cost pob gweithred. Yna, cyn y gellir bwrw ymlaen â’r camau gweithredu, bydd angen eu trafod gyda Grwpiau Ardal yr Aelodau perthnasol.

Byddai costau'r gwaith a nodwyd yn cael eu cwrdd yn defnyddio ystod o ffynonellau, fel cyllideb refeniw Rheoli Traffig neu gyllid cyfalaf e.e. County Capital, cyllid adfywio neu gyllid o gronfa Cynllun Cludiant Lleol Llywodraeth Cymru.

Byddai unrhyw newid i'r Gorchmynion Rheoli Traffig yn gofyn am fewnbwn arferol yr Adran Gyfreithiol o ran prosesu hysbysiadau cyfreithiol a drafftio gorchmynion rheoli traffig newydd neu ddiwygiedig. Mae hyn yn debygol o fod yn swm cymharol fach o waith ac felly o fewn llwythi gwaith arferol.

Byddai angen ystyried unrhyw newid i ffioedd parcio yn ofalus cyn gweithredu unrhyw beth oherwydd yr incwm posibl ar incwm meysydd parcio.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Mae’r AEC yn nodi bod y camau a argymhellir yn yr Adolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan o ran eu heffaith ar aelodau o'r cyhoedd sydd â nam symudedd oherwydd bod llawer o'r camau gweithredu yn gwella argaeledd gofodau parcio sy’n agosach at ganol trefi. Mae effaith unrhyw newid ar nodweddion gwarchodedig eraill yn debygol o fod yn niwtral.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Cyflwynwyd adroddiad ar gwmpas a methodoleg yr Adolygiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Mawrth 2014 ac fe gafodd ei gefnogi. Cyflwynwyd yr adroddiad hefyd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Chwefror 2014.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y gwasanaeth parcio yn gorwario £200 mil oherwydd gostyngiad mewn incwm, yn bennaf yn y Rhyl a Phrestatyn oherwydd parcio am ddim ac ail-leoli siopau allweddol i Barc Prestatyn, ynghyd â gostyngiad mewn incwm Hysbysiad Tâl Cosb. Mae'n bwysig bod unrhyw ddatblygiad yn ystyried yr angen i ddod â’r gyllideb hon yn ôl i sefyllfa lle mae’r Adran yn gallu adennill costau. Fel y nodwyd yn adran 6 mae hefyd yn bwysig bod cyllid unrhyw un o'r camau a argymhellir yn cael ei nodi a bod achosion busnes yn cael eu cymeradwyo cyn y gwneir y penderfyniadau terfynol.

## 10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Yr unig risg sylweddol sy’n debygol o ddeillio o'r Adolygiad yw effaith unrhyw newid posibl i ffioedd parcio ar incwm meysydd parcio. Bydd newidiadau o'r fath, fodd bynnag, yn amodol ar ddarn arall o waith i archwilio effaith debygol hyn.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Erthygl 6.3.3 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi’r rôl Archwilio o ran datblygu ac adolygu polisi.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd Ffôn: 01824 706959